Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

# Deiseb P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf a Deiseb P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig

# Crynodeb o'r ystyriaeth

Ebrill 2018

## Cyflwyniad

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi rhoi ystyriaeth fanwl i ddwy ddeiseb sy'n ymwneud â datblygiadau glo brig yng Nghymru. Roedd y ddwy ddeiseb yn canolbwyntio ar bolisi cynllunio cenedlaethol a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei gylch. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o ystyriaeth y Pwyllgor o'r materion hyn.

## 1. Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Ddeiseb P-04-472, sef Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf gan Dr John Cox. Casglodd 680 o lofnodion a chafodd ei hystyried gyntaf gan y Pwyllgor Deisebau ar 16 Ebrill 2013.

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wneud y Nodiadau Canllaw Nodyn Cyngor Technegol Mwynau, yn arbennig y rheini'n ymwneud â chlustogfa 500 metr o amgylch gweithfeydd brig, yn orfodol yn neddfau cynllunio Cymru.

Gwybodaeth ychwanegol:

Ar 20 Ionawr 2009, cyflwynodd Jane Davidson, y Gweinidog Amgylchedd, nodiadau canllaw Cyngor Technegol Mwynau Glo (MTAN) a oedd newydd eu cyhoeddi, ar gyfer Cymru, a nododd: "..  bydd y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau Glo yn cyflawni'r addunedau (yn 2008) i gyflwyno Asesiadau Effaith ar Iechyd ar gyfer ceisiadau glo, ynghyd â chlustogfeydd, a gyda phwyslais ar weithio'n agos â chymunedau lleol. Mae'n ailddatgan yr ymrwymiad (yn 2008) i glustogfa 500m."  Yn 2009 nid oedd gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i wneud ei chanllawiau cynllunio yn ddeddf. Mae ganddi'r pŵer bellach.

**2.** Cafodd y Pwyllgor ail ddeiseb ar gloddio glo brig yn 2014, sef P-04-575 Galw i mewn pob cais cynllunio ar gyfer cloddio glo brig. Fe'i cyflwynwyd gan Grŵp Gweithredu United Valleys gyda 180 o lofnodion (casglodd deiseb gysylltiedig a oedd yn ymwneud â chais cynllunio penodol fwy na 6500 o lofnodion ar wefan arall).

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i alw i mewn pob cais cynllunio ar gyfer cloddio glo brig dros gyfnod o ddeg mlynedd neu sydd dros 350 hectar o faint gan fod goblygiadau'r datblygiadau hyn yn bellgyrhaeddol ac yn hirsefydlog gydag effeithiau y tu hwnt i'r ardal leol.

**3.** Ystyriwyd y deisebau gyda'i gilydd ar gyfer llawer o'r trafodaethau arnynt gan y Pwyllgor Deisebau, a hynny dros ddau gyfnod y Cynulliad. Yn y Pedwerydd Cynulliad (2011-2016), cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth gyda Dr Cox a Lynne Neagle AC, a chyda'r Gweinidog dros Dai ac Adfywio ar y pryd, y diweddar Carl Sargeant AC. Ers 2016, mae'r Pwyllgor presennol wedi cynnal rhagor o sesiynau tystiolaeth gyda'r ddau ddeisebydd a chyda Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (ar y pryd, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig).

# 2. Ystyried y deisebau

## Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo (MTAN2)

**4.** Ym mis Ionawr 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo (MTAN 2)[1] Roedd y nodyn hwn yn rhoi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol, ymgeiswyr a rhanddeiliaid eraill ar gloddio am lo ar yr wyneb (brig) ac o dan y ddaear. Mae'r MTAN 2 yn nodi sut y dylid asesu effeithiau a pha fesurau lliniaru y dylid eu mabwysiadu, ac mae'n ceisio nodi costau amgylcheddol a chymdeithasol gweithrediadau glo fel y gall y gweithredwr eu bodloni'n briodol.

**5.** Mae'r cyngor technegol yn cwmpasu nifer fawr o feysydd sy'n ymwneud â glo, gan gynnwys rôl y cynllun datblygu lleol (gan gynnwys clustogfeydd, rheoli datblygu a chyfranogiad y cyhoedd), diogelu ardaloedd o bwysigrwydd, lleihau effaith cloddio am lo (gan gynnwys cynnal asesiadau o effaith ar iechyd, yr amgylchedd a'r gymdeithas), ac adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd.

**6.** Gwneir penderfyniadau yng Nghymru drwy edrych ar y cais yng nghyd-destun:

- Polisi cynllunio cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru) a'r canllawiau arno, gan gynnwys MTAN 2, fel y'u paratowyd gan Lywodraeth Cymru;
- Polisïau yng nghynllun datblygu yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardal; ac
- Unrhyw faterion perthnasol eraill, a elwir yn "ystyriaethau perthnasol".

**7.** Felly, dylid ystyried MTAN 2 mewn penderfyniadau cynllunio a wneir gan Awdurdodau Cynllunio Mwynau (h.y. awdurdodau cynllunio lleol), mewn penderfyniadau apêl a wneir gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ac mewn penderfyniadau ar alw i mewn geisiadau ac apeliadau gan Lywodraeth Cymru(gelwir apeliadau a gaiff eu galw i mewn yn 'apelau wedi'u hadfer').

**8.** Fodd bynnag, er y dylid ystyried polisi a chanllawiau cenedlaethol wrth wneud penderfyniadau cynllunio, nid oes unrhyw ofyniad statudol penodol y dylid ei ddilyn.

**9.** Dyma brif fyrdwn y ddeiseb P-04-472, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i wneud yr MTAN 2 yn ddeddf er mwyn gwneud ei gynnwys yn orfodol wrth wneud

---

[1] Llywodraeth Cymru, Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo (MTAN 2), Ionawr 2009

penderfyniadau cynllunio. Mae'r ddeiseb yn cyfeirio'n benodol at yr elfennau sy'n ymwneud â 'chlustogfa' 500m o amgylch gweithfeydd mwyngloddio glo brig.

**10.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer y Pwyllgor Deisebau blaenorol ym mis Mai 2013, crynhowyd amcan y ddeiseb gan Dr Cox fel a ganlyn:

> "There is a long-term and on-going contradiction between 1) Local Authorities being obliged to conform to these MTAN guidelines and 2) Planning Inspectors being allowed to reinterpret the MTAN guidelines.
>
> [...] The petitioners believe that Planning Inspectors are servants of the process and as equally obliged as are the Local Authorities to conform with the MTAN Guidelines."[2]

**11.** Mewn sesiwn dystiolaeth yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 3 Hydref 2017, eglurodd yn fwy manwl y cefndir i'r ddeiseb a'r cymhelliant a'i sbardunodd i'w chyflwyno:

> "[...] the National Assembly approved the minerals technical advice note guidelines for opencasting, which I supported, which did agree to opencasting under very specific circumstances, which seemed, to me, perfectly reasonable—one of the conditions being that you didn't do opencasting within 500m of neighbourhoods unless there were some very special circumstances [...]
>
> "We then had an application at a place called Varteg Hill for opencasting, which clearly violated the MTAN guidelines, and Torfaen council rejected it. The coaling would be 200m from the community. In fact, because they needed a big bund to hide the noise and everything, the works were actually 0.5m from houses and everything. So, obviously, it had to be rejected as it violated the guidelines. The company went to appeal, and I attended the public inquiry, along with other people. I will always recall the shattering first few words of the inspector. He said, 'I'm not interested in the MTAN guidelines. Those are guidelines. I make the law here.' And he then proceeded, for the two weeks that we were in attendance, to completely ignore the MTAN guidelines, on the grounds that he knew better."[3]

[2] Papur tystiolaeth gan y deisebydd (Saesneg yn unig), 28 Ebrill 2013 (PDF, 154KB)

[3] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2017, paragraffau 166-7

**12.** Casgliad Dr Cox oedd mai'r unig ffordd i sicrhau bod Canllawiau MTAN yn cael eu defnyddio'n gyson oedd rhoi statws cyfreithiol iddynt.

**13.** Gwrthododd y Gweinidog dros Dai ac Adfywio ar y pryd, y diweddar Carl Sargeant AC, y cynnig hwn mewn ymateb i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2014:

> "Mae angen i bolisïau cynllunio fod yn hyblyg ac mae angen hefyd inni fedru eu diwygio mewn da bryd wrth i amgylchiadau newid, yn hytrach na'u bod yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol. Drwy wneud canllawiau cynllunio yn rhan o un o ddeddfau'r Cynulliad, byddai angen cyflwyno deddf diwygio bob tro y byddai'r canllawiau cynllunio yn cael eu newid. Ni fyddai hynny'n beth synhwyrol i'w wneud.
>
> "Mae'n dilyn, felly, nad yw'n bosibl nac yn briodol i MTAN 2 gael ei wneud yn gyfraith. Mae'r ffactorau y mae angen eu hystyried yn gymhleth ac os ydym am ddod o hyd i'r ateb priodol yn y lle priodol, mae angen dull o weithredu sy'n golygu bod modd rhoi ystyriaeth lawn i'r amgylchiadau unigryw sy'n wynebu unrhyw ardal benodol. O'r herwydd, mae dull o weithredu sy'n seiliedig ar bolisi yn ffordd fwy priodol ac effeithiol o sicrhau clustogfeydd na deddfwriaeth."[4]

**14.** Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2017 amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig safbwyntiau tebyg ar bwysigrwydd hyblygrwydd mewn polisïau cynllunio:

> "As I say, the first port of call is obviously the local planning authority. If it then goes to appeal, that planning inspector has to look at it. I think it's really important that the planning policy has flexibility, because, obviously, each local area is different. So, I don't think they ride roughshod; they look at the planning application with fresh eyes and they come up with their decision in the way that they see fit." [5]

**15.** Yn ystod ystyriaeth gychwynnol y Pwyllgor Deisebau o'r ddeiseb yn y Pedwerydd Cynulliad, roedd y Gweinidog Tai ac Adfywio yn amharod i roi sylwadau ar yr amgylchiadau penodol o ran cais Mynydd Farteg, oherwydd ei fod yn gysylltiedig â phroses gynllunio fyw. Gyda threigl amser, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig rai sylwadau yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor ddiwedd 2017:

[4] Papur tystiolaeth gan y Gweinidog Tai ac Adfywio, Chwefror 2014 (PDF, 152KB)

[5] Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2017 paragraff 233

> "[...] my policy is the MTAN and in this case we're talking about MTAN 2. All the TANs are obviously guidance and they should be taken into consideration at all times."[6]

**16.** Mewn ymateb i ragor o gwestiynau ynghylch y sylwadau a roddwyd i'r arolygydd cynllunio yn yr ymchwiliad cyhoeddus i ddatblygiad Mynydd Farteg, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "Well, the planning policy, as it stands now, should be interpreted. I don't know what you're quoting there, but if that's what a planning inspector said, I would completely disagree with that."[7]

**17.** Gofynnodd y Pwyllgor a wneir asesiad neu archwiliad o benderfyniadau a wneir gan arolygwyr cynllunio, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cyson ar waith, a chafwyd cadarnhad gan swyddogion Llywodraeth Cymru y caiff y broses ei chynnal gan yr Arolygiaeth Gynllunio a'i goruchwylio gan Brif Arolygydd Cynllunio Cymru.

## Pwerau Gweinidogion Cymru i 'alw i mewn' geisiadau cynllunio

**18.** Mae'r ail ddeiseb a ystyriwyd gan y Pwyllgor, sef deiseb P-04-575, yn galw am i bob cais cynllunio mwyngloddio glo brig dros gyfnod o 10 mlynedd neu dros 350 hectar o faint gael ei alw i mewn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddeiseb yn dadlau bod goblygiadau'r datblygiadau hyn yn bellgyrhaeddol ac yn hirsefydlog, gydag effeithiau y tu hwnt i'r ardal leol, ac felly y dylid eu hystyried yn genedlaethol.

**19.** Yn gyffredinol, ystyrir ceisiadau am ganiatâd cynllunio gan Awdurdodau Cynllunio Lleol. Yng Nghymru, y rhain yw'r 22 o Awdurdodau Unedol a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae gan Weinidogion Cymru y grym i gymryd cyfrifoldeb gan Awdurdod Cynllunio Lleol ar unrhyw gais cynllunio gan ddefnyddio pwerau o dan Adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio o dan y broses "galw i mewn". Mae hyn yn effeithio ar nifer fechan o geisiadau yn unig bob blwyddyn.

**20.** Fel rheol, bydd ceisiadau cynllunio yn destun proses "galw i mewn" pan gyfyd materion cynllunio sydd y tu hwnt i bwysigrwydd lleol yn unig. Gallai'r materion hyn godi lle gallai'r datblygiad:

- Fod yn gwrthdaro â pholisïau cynllunio cenedlaethol;

[6] Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2017 paragraff 235
[7] Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2017 paragraff 237

- Cael effeithiau helaeth y tu hwnt i'r ardal leol;
- Achosi dadleuon rhanbarthol neu genedlaethol;
- Effeithio'n sylweddol, mae'n debygol, ar ardaloedd o bwysigrwydd o ran tirwedd, natur, pwysigrwydd gwyddonol, neu bwysigrwydd hanesyddol;
- Codi materion diogelwch cenedlaethol; neu
- Codi materion cynllunio newydd.

**21.** Nid yw galw i mewn yn ymwneud â'r cwestiwn a ddylai'r datblygiad arfaethedig gael caniatâd cynllunio ai peidio, ond yn hytrach â'r cwestiwn pwy ddylai wneud y penderfyniad hwnnw. Wrth ystyried a ddylid galw cais cynllunio i mewn, ni ystyrir rhinweddau cynllunio'r datblygiad arfaethedig.

**22.** Pa ddechreuodd y Pwyllgor ystyried y ddeiseb hon, mynegodd y deisebydd farn nad oes gan awdurdodau lleol yr adnoddau, y sgiliau na'r wybodaeth i ymdrin â chynigion cloddio glo brig ar raddfa fawr ac:

> "A responsible Government should consider all opencast applications of over 10 years or 350 hectares in size because the long term economic viability of coal mining is very uncertain."[8]

**23.** Nododd llythyr gan y Gweinidog dros Dai ac Adfywio ar y pryd, Carl Sargeant AC, bolisi Llywodraeth Cymru ar alw i mewn geisiadau cynllunio, ac yn benodol geisiadau ar gyfer mwyngloddio a gweithio mwynau:

> "Pŵer disgresiynol sydd gan Weinidogion Cymru i alw ceisiadau cynllunio i mewn; yn gyffredinol, polisi Llywodraeth Cymru yw gadael i'r awdurdodau cynllunio benderfynu ar gynigion ar gyfer datblygiadau gan mai nhw sy'n adnabod eu hardal, ei anghenion a'r materion sensitive y dylid eu hystyried. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ymyrryd yn awdurdodaeth yr awdurdodau cynllunio lleol oni bai fod angen gwneud hynny [...]
>
> "O dan ddarpariaethau Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012, rhaid hysbysu Gweinidogion Cymru ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer Datblygiad Mwynau, sef, at ddibenion y Cyfarwyddyd Hysbysu, datblygiadau sydd:
>
> (a) yn ymwneud â neu'n cynnwys cloddio neu weithio mwynau;

[8] Gohebiaeth y deisebydd at y Pwyllgor 30 Medi 2014(PDF 34 KB)

(b) i'w cyflawni ar safleoedd newydd neu estyniadau i safleoedd presennol;

(c) nad ydynt yn cyd-fynd â darpariaethau'r cynllun datblygu mewn grym yn yr ardal,

ac nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnig eu gwrthod. Wrth ystyried a ddylid galw i mewn gais a gyfeiriwyd atynt o dan y Cyfarwyddyd Hysbysu, bydd Gweinidogion Cymru'n cymhwyso'r un egwyddorion a nodir uchod, sef a yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi nodi'r polisïau cynllunio cenedlaethol ac, os hynny, a yw wedi asesu'r materion hynny mewn ffordd resymol drwyadl gan ddefnyddio'r fethodoleg a'r wybodaeth ddiweddaraf."[9]

**24.** Casgliad y Gweinidog oedd y dylid defnyddio'r pwerau i alw i mewn "yn ddethol":

"Rhaid i'r penderfyniad galw i mewn gael ei wneud ar ôl ystyried y ffeithiau ac amgylchiadau'r achos penodol dan sylw; ni ddylai Gweinidogion Cymru gyfyngu ar eu disgresiwn drwy lynu'n haearnaidd at unrhyw bolisi penodol wrth ystyried achosion o'r fath."[10]

**25.** Ysgrifennodd Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, at y Pwyllgor ar 7 Mawrth 2017 i gadarnhau nad oedd polisi Llywodraeth Cymru wedi newid.[11]

## Gweithredu diweddar ar bolisi cynllunio mewn perthynas â glo

**26.** Ym mis Mawrth 2017, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor i roi amlinelliad o gamau diweddar mewn perthynas â'r MTAN a chloddio glo brig:[12]

- Cynhaliwyd Uwchgynhadledd glo brig[13] yn 2015, a arweiniodd at adolygiad o ffocws MTAN 2 Glo;

[9] **Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai ac Adfywio at y Cadeirydd** 7 Medi 2014 (PDF 262 KB)

[10] Gohebiaeth y Gweinidog Tai ac Adfywio at y Cadeiryddl 7 Medi 2014

[11] Gohebiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at y Cadeirydd, 7 Mawrth 2017 (PDF 1 MB)

[12] Gohebiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at y Cadeirydd, 28 Mawrth 2017 (PDF, 69 KB)

[13] Roedd Dr Cox, y deisebydd ar gyfer deiseb P-04-472, yn ogystal â chynrychiolwyr o faes diwydiant, awdurdodau lleol a phreswylwyr eraill yn bresennol.

- Yn dilyn hynny, cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori ym mis Ionawr 2016 i ystyried newidiadau o ran ffocws MTAN 2 ac roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar eithriadau i'r polisi ar glustogfeydd, estyniadau a threfniadau adfer / trefniadau ariannol; a
- Datganiad a wnaed ganddi ar ynni, yn y Cyfarfod Llawn, ym mis Rhagfyr 2016, lle nododd gefnogaeth i gael gwared yn raddol ar bŵer gan ddefnyddio glo yn ddi-baid, a'i bwriad i ddiwygio polisi cynllunio i gyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer datblygiadau glo newydd.[14]

**27.** Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar 7 Tachwedd 2017 roedd bwriad Llywodraeth Cymru i symud tuag at economi carbon isel ac i ddefnyddio llai o danwyddau ffosil yn glir. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar newidiadau i bolisi cynllunio yn ystod y gwanwyn 2018, gyda'r bwriad o ddiwygio polisi mewn ffordd sy'n cefnogi'r cyfeiriad polisi hwn:

> "I have commenced a review of 'Planning Policy Wales'. That absolutely needs to fit in with the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. That's one reason for doing that. And, again, it needs to support the progress that we need to make in terms of our decarbonisation agenda and us moving to a low-carbon economy.
>
> "I also have written recently to chief planning officers right across Wales informing them of my intentions to consult on the appropriateness or otherwise of amendments to planning policy and whether planning policy should no longer be supportive of the extraction of coal. I think we need to be moving away from any new opencast developments in Wales.
>
> "I referred before to the statement I made in October around renewable energy. Again, that will help us decarbonise our energy system. Moving towards clean energy as a foundation for a prosperous economy requires appropriate action to move away from continued fossil fuel extraction. Currently, as it stands, 'Planning Policy Wales' is supportive of fossil fuels—coal, gas—so we need to review the planning policy."[15]

[14] Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar Ynni 6 Rhagfyr 2016

[15] Cofnod y Trafodion 7 Tachwedd 2017 paragraff 191-193

**28.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd at ddatganiadau a wnaed gan Lywodraeth y DU am ei bwriad i roi'r gorau i ddefnyddio gorsafoedd pŵer glo erbyn 2025, yr oedd hi o'r farn a fyddai'n debygol o arwain at ostyngiad mewn marchnad ar gyfer glo yn y dyfodol.[16]

**29.** Ar 12 Chwefror 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ymgynghori ar Bolisi Cynllunio Cymru Drafft: Argraffiad 10.[17] Mewn cysylltiad â glo, mae'n dweud:

> "Ni ddylid caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau glo brig, pyllai glo dwfn na gwaredu gwastraff pyllau glo. Pe bai cynigion yn cael eu cyflwyno o dan amgylchiadau cwbl eithriadol, byddai'n rhaid iddynt ddangos yn glir pam eu bod eu hangen yng nghyd-destun targedau lleihau allyriadau newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni."[18]

**30.** Mae'r cyfnod ymgynghori yn parhau tan ganol mis Mai 2018.

## Gwaith adfer safle

**31.** Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch effeithiau cloddio glo brig, gyda nifer o achosion yn cael eu hamlygu lle nad oedd gwaith adfer ar safleoedd yng Nghymru wedi'i gyflawni o gwbl, neu bod y gwaith yn anghyflawn neu'n annigonol ar ôl i weithrediadau mwyngloddio orffen.

**32.** Dywedodd Grŵp Gweithredu United Valleys wrth y Pwyllgor y dylai fod gan awdurdodau lleol fwy o gyfrifoldeb dros sicrhau y gwneir darpariaeth briodol ar gyfer adfer a gwella safleoedd a thros orfodi hyn:

> "If anything has to change, I would say that there has to be a mandatory local authority responsibility for these schemes, not the opportunity to hand over responsibility to mining companies themselves, who obviously have their own interests at heart, not ours."[19]

**33.** Cynigiodd Dr Cox:

[16] Cofnod y Trafodion 7 Tachwedd 2017 paragraff 199

[17] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar Bolisi Cynllunio Cymru Drafft: Argraffiad 10, a gyhoeddwyd ar 12 Chwefror 2018

[18] Llywodraeth Cymru, Polisi Cynllunio Cymru Drafft: Argraffiad 10, paragraff 4.161 (PDF 4MB)

[19] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2017, paragraff 234

> "[...] no applications should be accepted unless there is a deposit equivalent to the full restitution costs."[20]

**34.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at drafodaethau sydd wedi digwydd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyllido gwaith adfer.[21]

**35.** Clywodd y Pwyllgor hefyd fod yna bwerau sy'n galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol (neu Weinidogion Cymru) i sicrhau bod darpariaeth briodol ar gyfer costau adfer yn cael ei sicrhau ar y dechrau un. Rhoddodd Neil Hemington wybod i'r Pwyllgor am waith a wnaed gan Lywodraeth Cymru:

> "We have done some work with the Coal Authority, looking at practice guidance around helping to ensure that restoration takes place, and that guidance aims to ensure that there is sufficient money in the budget to meet, if you like, the key restoration costs before the project gets to that stage. So, we are trying to ensure that we move away from a situation, which we've seen in the past, where there are unfunded restoration liabilities and, in some cases, further extensions have been suggested to sites to pay for the restoration of the first phase of the site. So, we're fully aware of that issue, and hopefully we have, by working with local authorities and the Coal Authority, plugged that gap, if we should see a further application."[22]

**36.** Ym Mholisi Cynllunio Cymru Drafft: Argraffiad 10[23] mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei pholisi arfaethedig yn ddiweddar mewn perthynas ag adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnyddio safleoedd mwynau:

> "Oni bai bod cynlluniau newydd i gloddio am fwynau yn darparu ar gyfer gwaith adfer boddhaol ac addas, dylid gwrthod caniatâd cynllunio. Dylai gosod amodau cynllunio fod yn fodd i sicrhau bod tir yr effeithir arno gan gloddio am fwynau yn cael ei adfer cyn gynted ag y bo modd i safon uchel sy'n addas i'r defnydd y cytunwyd arno ar ei gyfer ar ôl i'r gwaith cloddio ddod i ben. Dylai'r gwaith adfer ddechrau o fewn chwe mis i ddiwedd y gwaith cloddio pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol (ac eithrio pan fo gwaith adfer graddol wedi dechrau yn barod). Dylai gwaith adfer ac ôl-ofal fod yn fodd i o leiaf gynnal

[20] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2017, paragraff 236

[21] Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2017, paragraff 204

[22] Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2017, paragraff 208

[23] Llywodraeth Cymru, Polisi Cynllunio Cymru Drafft: Argraffiad 10, paragraff 4.161 (PDF 4MB)

ansawdd y tir a'r tirweddau yn yr hirdymor, ac yn ddelfrydol, bydd y gwaith hwnnw'n gwella ansawdd hirdymor y tir a'r tirweddau a gymerwyd er mwyn cloddio mwynau."

**37.** Mae'r polisi a ddiweddarwyd hefyd yn nodi:

> "Dylai gweithredwyr a thirfeddianwyr sicrhau bod cyllid digonol yn cael ei roi o'r neilltu i'w galluogi i fodloni rhwymedigaethau o ran adfer ac ôl-ofal. Nid oes yn rhaid adneuo holl gost y gwaith adfer yn y dechrau un, ond dylid ychwanegu at y symiau a neilltuir fel eu bod yn cydfynd â'r rhaglen waith neu'r gwaith cloddio. Y nod yw sicrhau bod y costau adfer llawn yn cael eu talu yn unol â'r cyfnod datblygu fel yr amlinellir yn nodyn cyfarwyddyd Arfer Gorau yr Awdurdod Glo [...]
>
> "Nid yw gadael safleoedd heb eu hadfer am gyfnod hir, neu oedi cyn gwneud gwaith adfer priodol, yn dderbyniol.[...] Er mwyn sicrhau bod y gwaith adfer llawn yn cael ei wneud, caiff awdurdod ofyn, yn ystod y broses o roi caniatâd cynllunio, am warantau ariannol trwy rwymedigaeth/cytundeb cynllunio Adran 106. Mae gan rai awdurdodau ddeddfwriaeth leol i'w galluogi i gynnwys y ddarpariaeth hon fel amod sy'n gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio mwynau ystyried yr angen i osgoi gosod costau sy'n fwy na'r hyn sydd ei angen neu am gyfnodau hirach nag sydd eu hangen mewn gwirionedd er mwyn cyrraedd y safonau gorau."

**38.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r datganiadau hyn. Credwn mai blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ddylai fod i wneud yn siwr bod y ddarpariaeth ariannu briodol yn cael ei sicrhau neu'i gwarantu gan weithredwyr safleoedd, ac y dylid parhau i adolygu'n ofalus pa mor effeithiol yw'r polisi wrth gyflawni hyn. Os oes angen, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r gofynion yn hyn o beth, er enghraifft, drwy sicrhau bod gwarantau ariannol priodol yn un o elfennau gorfodol y caniatâd cynllunio.

## CASGLIADAU

**39.** Yn seiliedig ar ein hystyriaeth o'r deisebau hyn, a datganiadau diweddar Llywodraeth Cymru o ran natur gyfyngedig debygol cloddio glo yng Nghymru yn y dyfodol, rydym wedi dod i'r casgliadau canlynol.

> **Casgliad 1.**Mae'n amlwg nad yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld, ac na fyddai'n croesawu, rhagor o geisiadau am gloddio glo brig yng Nghymru yn y dyfodol. Ymddengys y byddai'r newidiadau a gynigir ym Mholisi Cynllunio

Cymru: Rhif 10 yn golygu bod datblygiadau glo brig newydd yn annhebygol iawn yn y dyfodol.

**Casgliad 2.** Mae'r newidiadau arfaethedig i bolisi cynllunio yn ei gwneud yn debygol y byddai unrhyw geisiadau cynllunio yn y dyfodol ar gyfer cloddio glo brig yn cael eu gwrthod drwy broses gynllunio leol neu broses "galw i mewn". Rydym yn cefnogi'r dull gweithredu hwn.

**Casgliad 3.** Dylai polisi cynllunio cenedlaethol sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am unrhyw ddatblygiadau cloddio glo brig yn y dyfodol yn talu neu yn rhoi gwarant o ran darpariaeth ariannol addas ar gyfer adfer y safle. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd y polisi cynllunio yn fanwl wrth gyflawni hyn, a'i gryfhau os oes angen.

**Casgliad 4.** Rydym yn annog y deisebwyr, cymunedau lleol ac eraill sydd â diddordeb yn y mater hwn i gyflwyno eu barn ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Bolisi Cynllunio Cymru Drafft: Rhifyn 10 cyn y dyddiad cau ar 18 Mai 2018.